WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Arolwg o Drefniadau Rheoli Risg – **Cyngor Sir Caerfyrddin**

Blwyddyn Archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1370A2019-20

Mae’r ddogfen hon wedi ei pharatoi i’w defnyddio’n fewnol gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru ddim cyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn ei swydd unigol, nac mewn cysylltiad ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymddygiad a gyhoeddir dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae’r Cod adran 45 yn gosod allan y cod ymddygiad wrth drin ceisiadau a ddisgwylir oddi wrth awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu’r ddogfen hon neu ei defnyddio eto i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales <mailto:info.officer@audit.wales>.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Y tîm a ddarparodd y gwaith oedd Nathan Couch, Alison Lewis a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor strategaeth risg, ond mae diffyg arweiniad, cyfarpar a hyfforddiant yn arwain at weithredu anghyson, ac mae angen cryfhau trefniadau sicrwydd a monitro.


Adroddiad crynodeb

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor strategaeth risg, ond mae diffyg arweiniad, cyfarpar a hyfforddiant yn arwain at weithredu anghyson, ac mae angen cryfhau trefniadau sicrwydd a monitro 6

Mae gan y Cyngor strategaeth risg a byddai hon ar ei hennill o gael mwy o fanylion i wella'i heffeithiolrwydd 6

Mae diffyg arweiniad, cyfarpar a hyfforddiant yn arwain at reoli risg gweithredol yn anghyson 7

Mae trosolwg y Pwyllgor Archwilio o risgiau corfforaethol yn gwella, er nad yw mecanweithiau sicrwydd eraill y Cyngor yn ddigon effeithiol. 8

# Adroddiad Crynodeb

## Crynodeb

### Beth a archwiliwyd gennym a pham

1 Archwiliwyd trefniadau Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) i nodi, rheoli a monitro risgiau. Mae rheoli risg yn dda yn bwysig gan ei fod yn caniatáu i sefydliad gael mwy o hyder wrth gynnal ei weithrediad a chyrraedd ei amcanion. Er mwyn cael trefniadau rheoli risg yn effeithiol, mae angen i'r Cyngor:

- nodi ffactorau a allai gael effaith negyddol ar ei weithredu;
- asesu eu heffaith bosibl (drwy arolygu tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd a'i heffaith os bydd yn digwydd);
- gweithredu'r ffordd fwyaf effeithiol o'u rheoli; a
- monitro'r risgiau a sut y mae'n eu rheoli.

2 Gwnaed yr arolwg hwn ym mis Mawrth a mis Ebrill 2019.

### Beth ddarganfuwyd

3 Roedd ein harolwg yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw trefniadau rheoli risg y Cyngor yn effeithiol?

4 **Ar y cyfan, gwelsom: Bod gan y Cyngor strategaeth risg, ond mae diffyg arweiniad, cyfarpar a hyfforddiant yn arwain at weithredu anghyson, ac mae angen cryfhau trefniadau sicrwydd a monitro.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae gan y Cyngor strategaeth risg a byddai hon ar ei hennill o gael mwy o fanylion i wella'i heffeithiolrwydd.
- mae diffyg arweiniad, cyfarpar a hyfforddiant yn arwain at reoli risg gweithredol yn anghyson. ac
- mae trosolwg o risgiau corfforaethol yn gwella, er nad yw mecanweithiau sicrwydd eraill y Cyngor yn ddigon effeithiol.

# Cynigion ar gyfer gwella

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn gosod allan y cynigion ar gyfer gwella rydym wedi eu nodi yn dilyn yr arolwg hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Gweithdrefnau ac Arweiniad**<br>P1 Dylai'r Cyngor ddatblygu gweithdrefnau ac arweiniad addas i fod yn sail i'w strategaeth rheoli risg i sicrhau bod rheoli risg wedi ei ymgorffori'n gyson drwy'r sefydliad cyfan. |
| **Awydd am Risg**<br>P2 Dylai'r Cyngor ddiffinio'i awydd corfforaethol am risg i sicrhau ei fod yn rheoli risgiau a chyfleoedd yn effeithiol. |
| **Rheoli Perfformiad**<br>P3 Dylai'r Cyngor alinio ymhellach ei drefniadau rheoli risg â'i drefniadau rheoli perfformiad. |
| **Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**<br>P4 Dylai'r Cyngor arolygu ac egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau:<br>• Rheolwyr<br>• Staff<br>• Eiriolwyr risg<br>• Y Grŵp Llywio Rheoli Risg<br>yn ei drefniadau rheoli risg. |
| **System Rheoli Risg**<br>P5 Dylai'r Cyngor:<br>• egluro'r system y mae'n ei defnyddio i nodi a chadw risgiau er mwyn sicrhau dull cyson drwy'r sefydliad cyfan; ac<br>• arolygu'r wybodaeth a gofnodir ar gofrestri risg drwy'r sefydliad cyfan er mwyn sicrhau bod y wybodaeth wedi'i diweddaru, yn gyflawn ac yn ddigon manwl i sicrhau y gall risgiau gael eu rheoli'n briodol. |
| **Effeithiolrwydd Trefniadau Rheoli Risg**<br>P6 Dylai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg drwy:<br>• hyfforddi staff;<br>• chwilio am sicrwydd yn rheolaidd am effeithiolrwydd pob agwedd ar ei drefniadau a gwerthuso ar sail y darganfyddiadau; ac<br>• ymgorffori proses ar gyfer nodi gwersi a ddysgwyd a rhannu arfer da drwy'r sefydliad cyfan. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor strategaeth risg, ond mae diffyg arweiniad, cyfarpar a hyfforddiant yn arwain at weithredu anghyson, ac mae angen cryfhau trefniadau sicrwydd a monitro

## Mae gan y Cyngor strategaeth risg a byddai hon ar ei hennill o gael mwy o fanylion i wella'i heffeithiolrwydd

5 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom:

- fod gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Risg a Chynllunio ar gyfer Hapddigwyddiadau am y cyfnod 2018-2022.
- mae rheolwyr uwch yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau dros reoli risg, ond mae'r staff gweithredol yn llai sicr. Nid yw'r Cyngor wedi diffinio swyddogaethau, cyfrifoldebau a disgwyliadau rheolwyr a staff mewn cysylltiad â rheoli risg yn y strategaeth.
- mae angen i'r Cyngor hefyd ddiffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau eiriolwyr risg adrannol y Cyngor. Yn ein gwaith gwelsom mai ychydig gyfle oedd ymhlith rhai swyddogion i neilltuo amser i'w dyletswyddau fel eiriolwyr risg.
- nid yw'r Cyngor wedi datblygu gweithdrefnau a chanllawiau ar y ffordd y dylai risgiau gael eu diffinio, eu gosod mewn categorïau, eu sgorio, eu cofnodi neu eu lleddfu.
- mae'r Cyngor wedi nodi bod angen iddo ddeall a chyfleu ei awydd am risg[1] ond nad yw eto wedi diffinio na gosod dim lefelau goddefiant derbyniol ar gyfer ei risgiau.
- er bod risgiau'n cael eu nodi mewn cynlluniau busnes gwasanaeth, gallai cysylltiadau rhwng trefniadau rheoli risg y Cyngor a'i drefniadau ar gyfer rheoli perfformiad fod yn fwy eglur.
- fodd bynnag, gan y Tîm Rheoli Corfforaethol mae'r gofrestr risg gorfforaethol, a bydd yn ei hadolygu bob chwe mis. Mae cyfarwyddwyr yn dangos arweinyddiaeth ac ymwneud wrth reoli risg o fewn eu meysydd cyfrifoldeb unigol. Caiff risg ei drafod mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli corfforaethol, adrannol a gwasanaethol, ond mae angen gwella trefniadau mewn rhai meysydd gwasanaeth ymhellach.

[1] Awydd am risg yw faint o risg a pha fath y mae sefydliad yn fodlon ei gymryd i fodloni ei amcanion strategol.

## Mae diffyg arweiniad, cyfarpar a hyfforddiant yn arwain at reoli risg gweithredol yn anghyson

6 Wrth ddod i'r casgliad hwn gwelsom:

- fod gan y Cyngor ddull anghyson o grynhoi a monitro gwybodaeth am risg sy'n arwain at ddyblygu posibl neu fylchau yn y wybodaeth a ddelir. Mae'r systemau gwahanol a ddefnyddir yn golygu bod diffyg trosolwg corfforaethol clir dros yr holl risgiau trefniadol. Mae rhai meysydd gwasanaeth yn crynhoi a chofnodi risgiau ar system rheoli risg gorfforaethol y Cyngor, a meysydd gwasanaeth eraill yn cofnodi risgiau mewn taenlenni, cynlluniau busnes neu ar feddalwedd y Cyngor i reoli prosiectau a rheoli perfformiad.
- mae rhai swyddogion sydd â chyfrifoldebau rheoli risg yn methu â mynd i mewn i'r modiwl rheoli risg ar y system rheoli risg gorfforaethol, ac maent yn methu â gweld gwybodaeth am risg. Mae hyn yn annog defnyddio systemau ar wahân i gofnodi a monitro risg. Mae ansawdd a chyflawnder gwybodaeth a gofnodir ar gofrestri yn amrywio. Weithiau ni fydd rhai risgiau'n cael eu mynegi neu eu dosbarthu'n glir, ac ychydig wybodaeth sydd i ddangos sut mae risgiau'n effeithio ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu.
- nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn monitro camau lleddfu risg fel y gwelir yng nghofrestri risg gwasanaeth y system rheoli gorfforaethol. Mae cofrestri risg gwasanaeth yn dangos bod nifer o gamau rheoli risg yn parhau neu ar waith ac ychydig ddyddiadau gweithredu targed sydd. Gwelsom fod nifer o gamau rheoli risg yn dangos nad oes dim wedi eu cwblhau.
- roedd ein gwaith yn tynnu sylw at farn negyddol ymhlith rhai staff am ymarferoldeb y system rheoli risg gorfforaethol yr hyfforddiant sydd ar gael i sicrhau y gallant ddefnyddio'r system yn effeithiol. Mae'r Cyngor wedi nodi pwysigrwydd hyfforddiant ac wedi cynnwys yn ei Strategaeth Rheoli Risg gam allweddol i sicrhau darparu hyfforddiant ac arweiniad digonol mewn Rheoli Risg a Chynllunio ar gyfer Hapddigwyddiad i Swyddogion ac Aelodau. Mae'r Cyngor yn bwriadu darparu hyfforddiant pellach, ac ôl uwchraddio'r system risg sydd i ddigwydd yn y misoedd i ddod.
- mae diffyg niferoedd yn Uned Rheoli Risg y Cyngor yn cael effaith ar ei allu i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth dechnegol i annog staff i ddefnyddio'r system rheoli risg gorfforaethol.

# Mae trosolwg y Pwyllgor Archwilio o risgiau corfforaethol yn gwella, er nad yw mecanweithiau sicrwydd eraill y Cyngor yn ddigon effeithiol

7 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom:

- fod trosolwg Pwyllgor Archwilio'r Cyngor o risgiau wedi gwella. Nawr bydd y pwyllgor yn gweld y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddwywaith y flwyddyn, ac mae wedi dechrau gwahodd perchnogion risg i gyfarfodydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau. Mae lle o hyd i'r Pwyllgor Archwilio arolygu ei ddulliau rheoli risg a'r gofrestr risg yn amlach ac yn fwy grymus.
- nid yw cylch gwaith y Grŵp Llywio Rheoli Risg yn eglur. Mae'r strategaeth risg yn dweud y bydd iddo ganolbwynt strategol, ond mae cofnodion y cyfarfodydd yn awgrymu canolbwynt gweithredol yn hytrach na strategol. Mae'r grŵp yn bennaf yn edrych ar risg o safbwynt yswiriant, gan dreulio'r rhan fwyaf o'i amser yn adolygu cynigion am arian rheoli risg[2]. O ganlyniad, nid yw'r grŵp yn canolbwyntio lawer ar adolygu/gwneud trosolwg o gofrestri risg corfforaethol neu wasanaeth nac ar gadernid trefniadau rheoli risg y sefydliad. Felly, ychydig neu ddim sicrwydd mae'n ei roi fod trefniadau rheoli risg yn effeithiol.
- mae tystiolaeth fod y Grŵp Llywio Rheoli Risg, ei bedwar is-grŵp a rhai meysydd gwasanaeth yn dysgu gwersi o gamgymeriadau a methiannau agos ac yn rhannu arfer da am reoli risg. Mae ychydig arolygu hefyd o lwyddiant y mentrau a gefnogir gan y gronfa rheoli risg. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y broses ar gyfer hyn yn drefnus nac wedi'i hymgorffori drwy'r sefydliad cyfan.
- mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i ddelio â chyfleoedd a nodwyd gan ei ddarparwr yswiriant pan gynhaliodd hwnnw archwiliad iechyd o drefniadau rheoli risg y Cyngor yn 2017. Er enghraifft, diweddaru'r gofrestr risg gorfforaethol a'r Strategaeth Cynllunio ar gyfer Hapddigwyddiadau, ond mae'n cydnabod bod angen gwaith pellach i fynd i'r afael â'r amrywiol gyfleoedd a nodwyd.
- y tro diwethaf i'r Archwiliad Mewnol wneud arolwg o'r drefn rheoli risg oedd ym mis Mawrth 2017 pan edrychwyd ar drefniadau yswiriant. Mae angen i'r Cyngor wneud rhagor o waith sicrwydd neu hunanasesiadau yn erbyn safonau rheoli risg cydnabyddedig i ddeall effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg ei hun.

[2] Mae'r Gronfa rheoli risg yn cynnwys £250,000 y flwyddyn y gellir ei defnyddio i ysgogi mentrau lleihau risg o fewn y Cyngor.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru